# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Doc Penfro**

**Surehaven Penfro**
**Fort Road**
**Doc Penfro**
**SA72 6SX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Doc Penfro

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Shaw healthcare (Cambria) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Gorffennaf 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Crynodeb


Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Doc Penfro yn derbyn gofal a chymorth gan dîm o staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n ymrwymedig i ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn sicrhau eu bod bob amser yn rhoi blaenoriaeth i'r bobl. Mae'r amgylchedd yn dawel, yn gyfeillgar ac yn drefnus.

Caiff y gwasanaeth ei arwain yn effeithiol gan reolwr profiadol. Caiff ei gefnogi gan ddirprwy sy'n uchel ei barch a thîm o staff sy'n cynnwys nyrsys, gweithwyr cymorth, staff arlwyo, staff cadw tŷ a staff cynnal a chadw. Mae pob un ohonynt yn deall eu rolau pwysig o ran cyfrannu at ofal y bobl.

Mae rhai trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol iawn ar waith i fonitro ansawdd ac mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n dda.

Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel, maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, ac yn cael yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser, ond ceir adegau lle mae angen mwy o staff, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau a chymorth un i un.

Mae'r cofnodion gofal yn helpu i lywio'r gofal, ac mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn dangos bod y bobl yn cael y lefel o gymorth yr aseswyd bod ei hangen arnynt. Mae'r darparwr wedi nodi y gallai'r cofnodion fod yn fwy manwl er mwyn adlewyrchu'r gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y maent yn ei gael.

## Llesiant

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Mae hyn oherwydd bod y gweithwyr gofal yn gwybod pa gamau sydd angen eu cymryd pe baent yn amau bod unigolyn yn wynebu risg. Maent yn hyderus y byddai'r rheolwr yn ymdrin ag unrhyw bryderon a godwyd yn gywir er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu'n briodol. Caiff atgyfeiriadau eu cyflwyno i'r tîm amddiffyn oedolion ac mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cyfrannu at lesiant y bobl. Mae'n lân ac mewn cyflwr da. Cynhelir mân waith atgyweirio yn brydlon ac mae'r bobl yn cael cyfle i leisio eu barn am y ffordd y caiff eu hystafelloedd a'r ardaloedd cymunedol eu haddurno. Ceir rhai ardaloedd awyr agored diogel sy'n cynnig lle dymunol i'r bobl dreulio amser pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Mae'r bobl yn cael rhai cyfleoedd i wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae gweithiwr gweithgareddau wedi'i gyflogi y mae ei gydweithwyr yn ei ganmol yn fawr, ond weithiau, mae'n rhaid iddo gyflawni dyletswyddau eraill fel mynd â phobl i apwyntiadau neu weithio fel gofalwr. Mae'r gweithiwr gweithgareddau a'r gweithwyr gofal yn ceisio cynnig amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gemau grŵp a theithiau i'r traethau lleol, yn ogystal â gweithgareddau unigol fel trin gwallt ac ewinedd. Ceir ystafell weithgareddau sy'n cynnwys digon o adnoddau ac mae cynlluniau ar y gweill i brynu sgrin ryngweithiol i'r bobl ei defnyddio. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg a yw'r bobl y nodwyd bod angen cymorth un i un arnynt bob amser yn cael cymorth o'r fath.

Mae morâl y staff yn gadarnhaol ar y cyfan, a disgrifiodd un aelod o'r tîm y grŵp staff fel grŵp *"absolutely amazing… the care and dedication they give is phenomenal”* a dywedodd un arall fod y tîm yn *“welcoming and approachable”.* Fodd bynnag, cyfeiriodd aelod arall o'r staff at y gwasanaeth gan ddweud ei fod yn *“OK at times”.* Yn ystod yr ymweliadau arolygu, roedd yr awyrgylch yn dawel ac yn drefnus ac roedd y gweithwyr gofal yn cyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd bwyllog a chyfeillgar.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o weithwyr sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n gwybod beth a phwy sy'n bwysig iddynt. Mae'r gweithwyr gofal yn barchus ac yn ystyried urddas ac amrywiaeth y bobl. Nid ydynt yn rhuthro wrth wneud eu gwaith ac maent yn dibynnu ar eu cydweithwyr i'w helpu pan fo angen. Mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar ac yn dangos bod cydberthnasau wedi'u meithrin.

Ceir lefelau uchel o foddhad ymhlith y gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref a'r perthnasau. Dywedodd un wrthym "*X is a lot calmer"* ers bod yn y gwasanaeth, a gwnaeth unigolyn arall ddisgrifio'r tîm o staff fel *"very, very good".* Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol, "*excellent, absolutely fantastic… they take advice and relish it... I'm very very impressed".*

Ceir rhai cyfleoedd i'r bobl dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg os byddant yn dewis hynny. Mae rhai o'r staff yn siarad Cymraeg a chaiff eraill eu hannog a'u cefnogi i ddysgu'r iaith.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau gofal a chymorth yn helpu i lywio ac arwain y gofal. Ceir cynlluniau ac asesiadau risg ar gyfer amrywiaeth o feysydd gan gynnwys cyfathrebu, bwyta ac yfed, hylendid personol a symudedd. Caiff y cynlluniau gofal a chymorth eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. Cwblheir asesiad cynhwysfawr sy'n ystyried capasiti'r unigolion a'u gallu i ddeall eu gofal a chymorth, ac i benderfynu a oes angen gwneud unrhyw atgyfeiriadau pellach er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er lles pennaf yr unigolyn. Caiff nodau unigol y bobl eu cofnodi yn ogystal â'r ‘ffordd orau o fy nghefnogi’ a'r ‘hyn rwyf angen i chi ei wybod neu ei wneud’. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal o'r farn bod y cofnodion yn ddefnyddiol a'u bod yn cael yr amser sydd ei angen arnynt i'w darllen a'u cwblhau.

Caiff gwybodaeth ddyddiol ei nodi yn y cofnodion ar y pryd gan ddarparu tystiolaeth dda i ddangos bod anghenion gofal iechyd corfforol y bobl yn cael eu diwallu, gan gynnwys maeth, hydradu a gofal personol. Fodd bynnag, nid yw pob cofnod wedi'i ysgrifennu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac nid yw pob cofnod yn dangos lefel dda o ymgysylltu â'r staff. Trafodwyd hyn â'r uwch-reolwyr a oedd eisoes wedi nodi'r mater hwn ac maent wedi cytuno i adolygu fformat y cofnodion electronig.

Caiff anghenion iechyd corfforol y bobl eu diwallu. Mae nyrs bob amser ar ddyletswydd ac yn ymateb i geisiadau am gymorth ac arweiniad gan y gweithwyr gofal. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod sut i adnabod arwyddion sy'n gysylltiedig â niwed o ganlyniad i friwiau pwyso ar y croen, a chaiff yr unigolion hynny â lefelau symudedd cyfyngedig eu hail-leoli yn rheolaidd. Mae digon o gyfarpar lliniaru pwysau ar gael. Caiff gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys meddygon teulu, ffisiotherapyddion, nyrsys arbenigol diabetig a gweithwyr iechyd meddwl eu cynnwys yng ngofal y bobl.

Caiff gweithiwr gweithgareddau ei gyflogi y mae gan ei gydweithwyr feddwl uchel ohono, gan ei ddisgrifio fel *“a bundle of energy”* , ond dywedodd rhai o'r staff wrthym fod yn rhaid i'r gweithiwr gweithgareddau weithio fel gofalwr neu yrrwr weithiau, sy'n golygu bod llai o amser ganddo i ymgysylltu â'r bobl. Caiff rhestr o weithgareddau a gynlluniwyd ei harddangos, a lle y bo'n bosibl, mae'r gweithwyr gofal yn ceisio cynnig rhai gweithgareddau grŵp neu weithgareddau unigol. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, nid oes llawer o dystiolaeth o hyn yn y cofnodion gofal.

Mae angen mwy o amser un i un ar rai o'r bobl. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff bod y bobl yn cael amser o'r fath, ond nid yw'r cofnodion bob amser yn cyflwyno tystiolaeth o hyn, a dywedodd rhai o'r staff nad oes amser un i un bob amser yn cael ei gynnig. Ar y cyfan, mae'r rotas dyletswyddau yn dangos bod staff wedi'u cynnwys ar gyfer y dyletswyddau un i un, a dywedodd y rheolwr ei fod yn hyderus bod y bobl yn cael yr amser yr aseswyd bod ei angen arnynt. Mae'r rheolwyr eisoes wedi nodi bod rhai bylchau o ran y wybodaeth a gaiff ei chofnodi yn y cofnodion gofal.

Mae'r gwasanaeth yn deall pwysigrwydd maeth da. Mae gan y cogydd flynyddoedd o brofiad ac mae'n ymwybodol o bwysigrwydd bwyd cartref maethlon o ansawdd da i'r bobl. Mae'n ceisio cynnwys y bobl yn y prydau a gynigir ac yn adolygu'r bwydlenni yn rheolaidd, gan gynnwys y gweithwyr gofal a'r bobl. Ceir dewis da o brydau a rhoddir mwy o bwyslais ar gynnig opsiynau llysieuol. Mae'r tîm arlwyo yn ymfalchïo yn ei waith ac mae'r prydau yn edrych yn flasus. Mae bwyd ar gael y tu allan i amseroedd bwyd a darperir ar gyfer deietau arbennig a digwyddiadau arbennig. Mae hyn yn cynnwys cacennau a bwyd bwffe i ddathlu penblwyddi yn ogystal â nosweithiau thema, gan gynnwys prydau nos Mecsicanaidd a Tsieineaidd.

## Yr Amgylchedd

Mae cartref Doc Penfro yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr addurniadol da. Mae'r bobl wedi personoli eu hystafelloedd gyda dodrefn, ffotograffau ac ornamentau. Ceir rhaglen ailaddurno ac mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth helpu i ddewis lliwiau. Mae'r amgylchedd mor gartrefol â phosibl.

Caniateir mynediad i ymwelwyr gan aelod o'r staff a gofynnir iddynt lofnodi llyfr wrth gyrraedd, sy'n golygu bod y gweithwyr gofal yn gwybod pwy sydd yn y gwasanaeth bob amser. Mae'r adeilad yn ddiogel, a chaiff ardaloedd eu gwahanu gan ddefnyddio cloeon drws â chod a chedwir y drysau allanol dan glo. Mae camerâu teledu cylch cyfyng yn cynnig diogelwch ychwanegol ar gyfer ardaloedd ar y safle sydd y tu allan i'r adeilad.

Mae'r safonau glendid ym mhob rhan o'r cartref yn dda, ond mae angen gwaith tynnu llwch mewn rhai ardaloedd. Caiff staff eu cyflogi i olchi dillad yn ogystal â gwneud gwaith tŷ ac maent yn ôl pob golwg yn ymfalchïo yn eu gwaith.

Mae rhywfaint o dir y tu allan i'r adeilad. Caiff ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n hygyrch i'r bobl.

Mae prosesau cadarn a sefydledig ar waith i sicrhau bod y cyfarpar a'r gwasanaethau yn gweithio'n effeithiol. Cynhelir gwiriadau ar y cyfarpar diogelwch tân, y gwelyau a thymheredd y dŵr, ac mae'r cofnodion yn glir ac yn dangos bod y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r gweithiwr cynnal a chadw yn ymfalchïo yn ei waith ac mae'n amlwg yn rhan annatod o'r tîm, gan ryngweithio â'r bobl mewn ffordd gyfeillgar a chyfforddus.

Cafodd y gegin sgôr o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y sgôr uchaf posibl. Mae gan y staff arlwyo y cyfarpar sydd ei angen arnynt ac mae digon o ardaloedd storio a dulliau awyru.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn ymweld yn rheolaidd. Caiff ei gefnogi gan dîm o uwch-reolwyr sy'n gweithio'n agos gyda'r rheolwr ac sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o'r gwasanaeth. Mae rhai trefniadau llywodraethu cadarn iawn ar waith i fonitro ansawdd. Mae'r adroddiadau yn dangos bod y darparwr yn bodloni'r gofynion rheoliadol, ac mae'r adroddiadau yn fanwl ac yn fyfyriol. Maent yn nodi meysydd lle mae'r gwasanaeth o'r farn ei fod yn gwneud yn dda, a lle mae angen gwneud gwelliannau hefyd. Ceir lefel uchel o hyder yn y rheolwr, sy'n cael ei ddisgrifio fel *"brilliant"* gan un o'r tîm. Yn ddiweddar, derbyniodd y rheolwr wobr am ei arweinyddiaeth yn y dathliadau gwobrau staff.

Mae rhai prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, y rhoddir gwybod amdanynt ac y gweithredir arnynt. Buddsoddir yn helaeth yn lles a llesiant y staff, gan gynnwys mynediad at wasanaethau meddyg teulu a chymorth seicolegol. Cynhelir amrywiaeth o archwiliadau i fonitro ansawdd ac mae'r canlyniadau yn gadarnhaol iawn.

Mae'r cwmni bellach dan arweiniad y cyflogeion sy'n golygu bod gan y staff gyfle go iawn i ddweud eu dweud am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg a'u bod yn cael budd ariannol o unrhyw elw sy'n gysylltiedig â'u gwaith. Mae cynrychiolydd staff yn gwneud ymdrechion i ymgysylltu â'r tîm ac yn cyflwyno unrhyw syniadau neu bryderon i'r uwch-dîm arwain.

Caiff gweithwyr gofal eu penodi drwy ddilyn proses recriwtio ddiogel. Mae'r ffeiliau yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Maent yn cynnwys y wybodaeth ofynnol gan gynnwys geirdaon, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hanes cyflogaeth.

Ceir pwyslais da ar hyfforddiant, a dywedodd perthnasau a'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref fod y gweithwyr gofal yn fedrus. Mae'r matrics hyfforddiant yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys awtistiaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth, gofal dementia ac iechyd meddwl. Mae hyfforddiant y rhan fwyaf o'r staff yn gyfredol ac os bydd angen hyfforddiant ychwanegol, yna caiff hyn ei drefnu gan y darparwr.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael adborth ar eu gwaith yn ffurfiol mewn sesiynau goruchwylio ac yn fwy anffurfiol o ddydd i ddydd. Gallant godi unrhyw syniadau neu bryderon sydd ganddynt ac maent yn hyderus y byddent yn cael ymateb defnyddiol. Mae'r matrics goruchwylio yn dangos bod y sesiynau goruchwylio yn gyfredol ar y cyfan, ac mae'r cofnodion yn dangos y gellir trafod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a materion mwy personol mewn amgylchedd diogel a chyfrinachol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/09/2024